



VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWIRFODDOL
MERTHYR TYDFIL



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Siro
MERTHYR TYDFIL

interLink
Rhondda Cynon Taf



RHONDDA CYNON TAF



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf
University Health Board

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf

Datganiad Sefyllfa'r Farchnad ar gyfer Gwasanaethau Cartrefi Gofal

2017

Drafft

Datganiad Sefyllfa'r Farchnad ar gyfer Gwasanaethau Cartrefi Gofal

1 Cyflwyniad

Mae Cyngorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn cydweithio fel "Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cwm Taf". Rydym wedi ymrwmo i gydweithio'n agos ar draws ôl troed rhanbarthol i sicrhau gwelliannau cynaliadwy mewn gwasanaethau ar gyfer ein poblogaeth hŷn.

Gyda'n gilydd rydym ni eisoes wedi cyhoeddi ein Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn 2015-25¹. Yn y ddogfen hon rydym yn nodi dull newydd mewn perthynas â llety â gofal a chymorth i bobl hŷn a bydd gan hyn oblygiadau i ddarparwyr a darpar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal. Mae'r Datganiad Sefyllfa'r Farchnad (y Datganiad) yn disgrifio ein bwriadau strategol a dylai fod yn sail i unrhyw gyfathrebu a phartneriaethau cryfach rhwng comisiynwyr a darparwyr yn y dyfodol.

Mae'r Datganiad ar gyfer darparwyr cartrefi gofal yn bennaf; fodd bynnag bydd ei ddull gweithredu strategol a'n model gwasanaethau ar gyfer y dyfodol yn effeithio ar ystod ehangach o wasanaethau a darparwyr gwasanaethau. Hefyd, er bod y ddogfen hon yn ymwneud yn bennaf â darparu gwasanaethau cartrefi gofal i bobl hŷn, mae yna brinder lleoliadau mewn cartrefi gofal lleol a hygyrch ar gyfer oedolion iau ar hyn o bryd.

2 Beth yw Datganiad Sefyllfa'r Farchnad?

Rydym yn cydnabod bod darparwyr gwasanaethau yn gwneud cyfraniad hollbwysig at gyfeiriad gwasanaethau yn y dyfodol ac rydym wedi ymrwmo i gydweithio drwy bartneriaethau strategol cryf. Mae'r Datganiad hwn yn rhoi sail i'r dull hwn. Fe'i datblygwyd i gael ei ddefnyddio gan ddarparwyr a darpar ddarparwyr gwasanaethau fel y gallwn:

- Rannu gwybodaeth a dadansoddiadau ynghylch anghenion poblogaeth y dyfodol.
- Adolygu'r 'farchnad' gyfredol o wasanaethau.
- Disgrifio sut byddwn ni'n comisiynu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Nodi sut siâp fydd i'r farchnad yn y dyfodol fel y gall darparwyr baratoi eu hunain i atebion anghenion/galw yn y dyfodol.

¹ http://www.interlinkrct.org.uk/wp-content/uploads/2013/07/Annex-3-Joint-Commissioning-Statement-for-Older-Peoples-Services_CYMRAEG.pdf

- Disgrifio sut gallwn ni fel comisiynwyr a darparwyr ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau a'u cynorthwyo yn fwy effeithiol i sicrhau marchnad iach a chynaliadwy.

3 Pam rydym ni angen Datganiad Sefyllfa'r Farchnad?

Rydym yn wynebu cyfnod o newid mawr ac mae angen i ni wneud pethau'n wahanol. Mae deddfwriaeth newydd yn golygu bod angen i ni edrych o'r newydd ar sut rydym ni'n cefnogi unigolion mewn cymunedau. Gwyddom fod ein poblogaeth yn newid hefyd ac mae disgwyl y byddwn yn comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth gwahanol i bobl hŷn yn ein rhanbarth yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Bydd gan hyn oblygiadau i gartrefi gofal.

3.1 Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

Daeth ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)***² i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'n diwygio ac yn integreiddio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol ac yn pwysleisio gwella canlyniadau llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth yn cynnwys gofalwyr. Mae'n cyflwyno set gyffredin o brosesau i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn, mae'n gwella cydweithio ac integreiddio gwasanaethau, ac yn darparu ar gyfer mwy o ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- **Llais a rheolaeth** – sicrhau bod y gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'i anghenion, a rhoi llais a rheolaeth iddo mewn perthynas â chyflawni'r canlyniadau sy'n ei helpu i sicrhau llesiant
- **Atal ac ymyrraeth gynnar** – cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned i leihau'r angen am ofal a reolir parhaus.
- **Llesiant** – cynorthwyo pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
- **Cydgynhyrchu** – annog unigolion i gyfrannu mwy at ddylunio a darparu gwasanaethau.

Mae Canllaw Llywodraeth Cymru, "Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth" (2014)³ yn diffinio'n fanylach ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer dinasyddion hŷn. Mae'n galw am, ac rydym yn ymrwmo i, greu "system sy'n wirioneddol integredig" sydd â thair nodwedd allweddol:

- "Dylid cynllunio gwasanaethau ar y cyd â'r bobl a fydd yn eu defnyddio.
- Caiff gwasanaethau eu cynllunio'n ofalus, gan sicrhau bod gweithgareddau'n canolbwyntio o'r newydd ar y bobl hynny sy'n derbyn gofal a dileu rhwystrau i weithio integredig.

² <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents>

³ <http://llyw.cymru/docs/dhss/publications/140319integrationcy.pdf>

- Dylai gwasanaethau gael eu datblygu mewn partneriaeth â phob un o'n partneriaid allweddol yn cynnwys gwahanol adrannau o'n Hawdurdodau Lleol ein hunain, iechyd, tai, cymunedau a'r trydydd sector a'r sector annibynnol.”

Cafodd **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**⁴ Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n rhoi ansawdd a gwella gwasanaethau wrth galon y drefn reoleiddio ac yn gwella trefniadau amddiffyn i'r rheini sydd eu hangen. Bydd rheoleiddio'n mynd gam ymhellach na chydymffurfio â safonau gofynnol, ac yn canolbwyntio mwy ar ansawdd gwasanaethau a'r effaith maent yn ei chael ar y bobl sy'n eu defnyddio. Mae'r Ddeddf:

- yn sefydlu trefn reoleiddio sy'n gyson â'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- yn cyfrannu at wasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol drwy greu trefn reoleiddio sy'n galluogi ac yn grymuso dinasyddion a gweithwyr proffesiynol gwasanaethau
- yn darparu ymateb cadarn ac ystyrlon i'r gwersi clir a ddysgwyd yn sgil dadlennu methiannau yn y system – Adolygiad Flynn yn fwyaf diweddar
- yn newid enw Cyngor Gofal Cymru i Gofal Cymdeithasol Cymru gyda chylch gwaith ehangach o fis Ebrill 2017

Yn ei hadroddiad “**Lle i'w Alw'n Gartref?**”⁵, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi elfennau allweddol ansawdd bywyd da ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Yn dilyn adolygiad yn erbyn y safonau hyn, mae'n dod i saith casgliad allweddol:

1. *“Mae gormod o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu sefydliadu yn gyflym. Mae eu hunaniaeth a'u hunigoliaeth yn gwanio'n gyflym ac mae ganddynt ddiffyg dewis a rheolaeth ar eu bywydau.*
2. *Yn rhy aml, ystyrir bod cartrefi gofal yn llefydd o ddirywiad anadferadwy ac mae gormod o bobl hŷn yn methu cael mynediad i wasanaethau a chefnogaeth arbenigol fyddai'n eu helpu i gael yr ansawdd bywyd gorau.*
3. *Nid yw eiddilwch emosiynol ac anghenion emosiynol pobl hŷn yn cael eu deall na'u cydnabod yn llwyr gan y system, ac nid yw esgeulustod emosiynol yn cael ei gydnabod fel camdriniaeth.*
4. *Ni chydabyddir neu ni ymatebir i rai o anghenion gofal mwyaf elfennol pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.*
5. *Nid yw pwysigrwydd hanfodol rôl a chyfraniad gweithlu cartrefi gofal yn cael ei gydnabod yn ddigonol. Nid oes digon o fuddsoddi yn y sector ac mae yna brinder cefnogaeth i weithlu cartrefi gofal.*
6. *Mae'r systemau comisiynu, archwilio a rheoleiddio yn anghyson, yn brin o integreiddio a thryloywder, nid ydynt yn ddigon agored, ac nid ydynt yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd bywyd yn ffurfiol.*

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents>

⁵ <http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1126/2%20Lle%5Fi%5Fw%5FAlw%5Fn%5FGartref%5F%2D%5FAdolygiad%5Fo%5Ffansawdd%5Fbywyd.pdf>

7. *Mae diffyg cynllunio ymlaen llaw ar hyn o bryd yn golygu na fydd anghenion pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn cael eu bodloni yn y dyfodol.”*

Rydym yn disgwyl y dylai ymateb i'r casgliadau hyn lunio agenda ar y cyd ar gyfer comisiynwyr a darparwyr fel ei gilydd.

3.2 Poblogaeth

Cyhoeddwyd **Asesiad Poblogaeth Cwm Taf**⁶ ym mis Mawrth 2017. Mae'n darparu dadansoddiad manwl o anghenion ein poblogaeth yn y dyfodol. I lywio'r Datganiad hwn, rydym wedi ystyried y ddogfen hon ochr yn ochr ag amcanestyniadau poblogaeth Daffodil⁷. Mae'r dadansoddiad hwn o alw i'w weld yn Atodiad 1. Dyma'r prif bwyntiau:

- Mae disgwyl i'r boblogaeth o bobl 65 oed a hŷn dyfu 30.4% erbyn 2025, sy'n uwch o lawer na'r gyfradd twf cyffredinol o 2.7% ar gyfer y boblogaeth 18 oed a throsodd. Gall hyn arwain at oblygiadau o ran nifer y bobl sydd angen gofal o ryw fath ac o ran nifer y bobl yn y gweithlu sydd ar gael i lenwi swyddi gofal cymdeithasol.
- Mae disgwyl i'r boblogaeth 80 oed a hŷn dyfu 71.3%. Mae'r grŵp hwn yn debygol o fod angen mwy o gymorth a gofal iechyd a chymdeithasol na grwpiau oedran iau.
- Mae disgwyl i'r boblogaeth dros 75 oed sydd â dementia dyfu 61% i 4,676. Mae'r galw am ofal dementia yn parhau i gynyddu ledled y DU a bydd yr angen am ofal a chymorth arbenigol ar gyfer pobl â'r cyflwr hwn yn rhoi mwyfwy o bwysau ar y system iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cwm Taf yw'r ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r hyn yn effeithio ar incwm cynghorau a nifer y bobl mewn cartrefi gofal sy'n gallu talu am eu darpariaeth nhw'u hunain a chyfrannu at ariannu'r system. Bydd yna effaith hefyd ar lefelau salwch yn ôl pob tebyg, a gallai hyn gynyddu'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae 44.5% o bobl yng Nghwm Taf 75 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain. O fewn y grŵp, bydd y rheini sy'n cael eu taro'n wael angen cymorth yn ôl pob tebyg gan nad oes partner neu unigolyn arall sy'n gallu gofalu amdanynt. Gellid rhagweld y bydd nifer cynyddol o bobl yn y grŵp hwn angen gofal preswyl, gofal nrysio neu ofal o fath arall wrth iddynt heneiddio.

3.3 Gwneud Pethau'n Wahanol

Nid yw parhau â'r modelau gwasanaeth presennol yn opsiwn. Mae yna heriau sylweddol ac os na chânt eu rheoli'n greadigol, bydd adnoddau'n cael eu targedu fwyfwy at y rhai sydd â'r angen mwyaf. Gallai cyfyngu nifer y bobl sy'n cael cymorth i'r rheini sydd â'r anghenion mwyaf arwain leihad byrdymor yn y galw. Fodd bynnag, heb strategaethau ataliol digonol, ni fyddwn yn cael y cynaliadwyedd sy'n gallu sicrhau capasiti yn yr hirdymor o ran cyllid a'r gweithlu, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i bobl.

⁶ <http://www.eincwm Taf.cymru/SharedFiles/Download.aspx?pageid=180&mid=438&fileid=16>

⁷ <http://www.daffodilcymru.org.uk/>

Mae angen dull system gyfan lle rydym ni fel comisiynwyr yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector i nodi risg a gweithredu cyn neu adeg argyfwng, fel bod pobl yn gallu adennill eu hannibyniaeth.

Prif Bwyntiau:

- Rydym yn disgwyl i'n poblogaeth o bobl dros 85 oed gynyddu mwy na 70% yn y 10 mlynedd nesaf.
- Diolch i ddeddfwriaeth ddiweddar, rydym yn disgwyl gweld newid diwylliant mewn gwasanaethau gofal a chymorth, lle nad yw unigolion yn cael eu hystyried yn dderbynyddion goddefol ond cyfranogwyr gweithredol.
- Disgwyliwn i ddarparwyr cartrefi gofal gael eu llywio gan egwyddorion llais a rheolaeth, atal ac ymyrraeth gynnar, llesiant a chyd-gynhyrchu.

4 Ein Model Cydwasanaethau

Rydym wedi cydweithio i ddatblygu model cydwasanaethau a fydd yn sail i ddull cyson o gomisiynu ar draws y rhanbarth.

4.1 Ein Gweledigaeth

Gyda'n gilydd, rydym ni wedi mabwysiadu gweledigaeth gyffredin ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer pobl hŷn: "Cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, iach a bodlon". Cyflawnir hyn drwy ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n:

- Integredig, cydlynol a di-dor.
- Canolbwyntio ar atal, hunanreolaeth ac ail-alluogi.
- Ymatebol ac yn cael eu darparu'n lleol yn y man cywir, ar yr adeg gywir a gan y person cywir.
- Diogel, cynaliadwy a chost-effeithiol.

Ac a fydd yn:

- Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn atal salwch.
- Hyrwyddo annibyniaeth ac yn diogelu pobl agored i niwed.
- Gwella gwasanaethau a chydweithio.

4.2 Canlyniadau

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n sylw ar wneud gwahaniaeth. Mae angen i ni allu gweld bod y cymorth a roddwn wedi gwella iechyd a llesiant ein dinasyddion. Felly, mae angen i ni fod yn bendant ynghylch pa "ganlyniadau" rydym yn ceisio'u cyflawni drwy'r datganiad cydgomisiynu hwn:


- Pobl hŷn yn byw bywydau hirach, iachach a hapusach.
- Pobl hŷn yn byw bywyd i'r eithaf ac yn cael eu galluogi i gadw'u hannibyniaeth cyhyd ag sy'n bosibl.
- Pobl hŷn sy'n mynd yn sâl, yn eiddil neu'n agored i niwed yn cael y gofal a'r cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg iawn ac yn y man iawn.
- Pob unigolyn a chymuned yn cydnabod yr angen i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant a'u bod yn cael cymorth i wneud hyn.
- Bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn trin pobl eraill yr un fath.
- Bod pobl yn cael eu clywed a bod gwasanaethau'n gwrando arnynt.
- Bod pobl yn gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio i'w helpu i sicrhau eu llesiant.
- Bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth iawn, mor gynnar â phosibl.

4.3 Ein Dull

Ein rôl yw ategu rhwydweithiau teuluol, cymdeithasol a chymunedol. Rydym am gynorthwyo pobl i barhau i fyw bywydau bodlon wrth iddynt fynd yn hŷn, a phan fyddant ei angen, rhoi cymorth iddynt fynd i'r afael â phroblemau bywyd (e.e. salwch, profedigaeth, arwahanrwydd cymdeithasol). Mae hyn yn bwysig nid yn unig i'r unigolion dan sylw, ond i wydnwch, llesiant a datblygiad ein cymunedau hefyd. Ein bwriad yw cefnogi'n well pobl hŷn sydd ar wahân i gysylltu o'r newydd gyda'u cymunedau.

I wneud hyn, mae angen i ni sicrhau bod y gwasanaethau iawn ar gael ar yr adeg iawn, a sicrhau eu bod yn effeithlon ac wedi'u cydlynu'n dda. Trwy wneud hynny, gallwn roi cymorth i bobl cyn gynted ag y maent ei angen, eu helpu i barhau i fyw'n hapus gyda'u teulu ac yn eu cymuned, ac i rai, osgoi gofal arbenigol ac amgen drud a thrafferthus. O wneud hyn yn llwyddiannus dros amser, gallwn dynnu rhai adnoddau gofal arbenigol ac amgen a'u trosglwyddo i wasanaethau cymunedol a chyffredinol gwell. Mae ein model gwasanaethau i'w weld isod:

Ffigur 1: Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cwm Taf: Model Gwasanaethau



[clockwise from top]

Gwasanaethau cyffredinol yn hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth yn y gymuned

Nodi'r rheini sy'n dechrau wynebu anawsterau

Ymyrraeth gynnar ac adsefydlu gyda'r rheini y gallwn eu helpu orau

Gwaith dwys mewn partneriaeth i adeiladu ar gryfderau a mynd i'r afael â phroblemau

Pobl yn magu gwydnwch ac angen llai o gymorth

Tynnu adnoddau o ofal arbenigol ac amgen a'u trosglwyddo i wasanaethau cyffredinol ac ymyrraeth gynnar

Prif Bwyntiau:

- Bydd ein model gwasanaethau yn:
 - Ymyrryd yn gynharach ac yn gyflymach, gan osgoi'r angen am ofal hirdymor
 - Hyrwyddo annibyniaeth ar gyfer pobl yn eu cartrefi eu hunain
- Gall pobl hŷn barhau i ddewis byw mewn cartref gofal, ond mae anghenion y bobl hyn yn debygol o fynd yn fwy cymhleth
- Bydd cartrefi gofal yn parhau i fod yn elfen bwysig yn ein "system gyfan" o ofal chymorth.

5 Dadansoddiad o'r Farchnad

Cynhaliwyd dadansoddiad manwl o'r farchnad cartrefi gofal gan yr Institute of Public Care ym Mhrifysgol Oxford Brookes (IPC) (Atodiad 2). Mae'n cefnogi cyd-ddealltwriaeth o'r farchnad gyfredol yn y rhanbarth, ei chynaliadwyedd a'i gallu i

ddiwallu angen yn y dyfodol. Bydd yn sail i'r blaenoriaethau comisiynu strategol a amlinellir yn y Datganiad Sefyllfa'r Farchnad. Dyma brif bwyntiau'r Dadansoddiad o'r Farchnad:

5.1 Capasiti

- Mae nifer y gwelyau Nyrsio Cyffredinol ym Merthyr Tudful wedi gostwng yn sylweddol dros y cyfnod o bum mlynedd.
- Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y gwelyau Nyrsio Cyffredinol ar gyfer henoed eiddil eu meddwl sydd ar gael yn Rhondda Cynon Taf rhwng 2015 a 2016.
- Oni bai ein bod ni'n gallu rheoli'r galw am welyau mewn cartrefi gofal, bydd y cynnydd disgwylidig yn nifer y bobl hŷn dros y 15 mlynedd nesaf yn gofyn am lefel anghynaliadwy o gapasiti ac adnoddau.

5.2 Ymateb i'r Galw

- Mae'n ymddangos nad yw'r farchnad ym Merthyr Tudful yn gallu ymateb i'r angen am welyau mewn cartrefi gofal cystal â'r farchnad yn Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd.
- Mae'n ymddangos mai'r manau gwan penodol ar draws y rhanbarth yw'r ddarpariaeth lleoliadau cyffredinol a henoed eiddil eu meddwl mewn cartrefi nyrsio a lleoliadau preswyl ar gyfer henoed eiddil eu meddwl.

5.3 Ansawdd a Chynaliadwyedd

- Pan mae gan gomisiynwyr bryderon am gartrefi gofal, mae themâu cyffredin yn cynnwys:
 - Diffyg arweinyddiaeth gref
 - Rheoli anghyson
 - Cynllunio gofal gwael
 - Staffio annigonol a gwael
 - Anhawster recriwtio nyrsys cymwysedig
- Ar gyfartaledd, mae dros 90% o welyau cartrefi gofal yn Rhondda Cynon Taf y llawn.

5.4 Adnoddau

- Yn 2015-16, gwariwyd bron i £53.2 miliwn gan awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd ar draws Rhanbarth Cwm Taf.
- Yn cynnwys gofal nyrsio a ariennir gan y GIG, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn buddsoddi £21.2 miliwn a mwy yn y sector cartrefi gofal
- Mae awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful wedi gwario:
 - Mwy na £34.6 miliwn ar y sector cartrefi gofal yn ei gyfanrwydd
 - Mwy na £12.3 miliwn ar ddarpariaeth gofal preswyl
 - Mwy na £10.5 miliwn ar ddarpariaeth gofal preswyl i henoed eiddil eu meddwl
 - Mwy na £9.7 miliwn ar leoliadau mewn cartrefi nyrsio cofrestredig
 - Mwy na £1.7 miliwn ar leoliadau mewn cartrefi nyrsio i henoed eiddil eu meddwl
- Ar draws y rhanbarth, **ac os na chaiff modelau gofal amgen eu rhoi ar waith** i reoli'r galw am welyau cartrefi gofal, rhagwelir, erbyn 2030, y bydd cyfanswm yr adnoddau blynyddol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion poblogaeth hŷn sydd ar gynydd yn codi mwy na £35 miliwn i bron £87 miliwn.

Prif Bwyntiau:

- Nid yw'r farchnad cartrefi gofal yn gallu diwallu'r galw yn effeithiol ar hyn o bryd, yn enwedig yn achos gwelyau gofal nyrsio a dementia.
- Mae recriwtio a chadw staff, yn enwedig nyrsys cofrestredig, yn her sy'n ein hwynebu ni a'r GIG ar draws y rhanbarth
- Ar sail amcanestyniadau cyfredol o'n poblogaeth hŷn ac o fewn ein model gwasanaethau cyfredol sydd angen ei ddiweddarau, byddai angen i ni gomisiynu hyd at 1,000 yn rhagor o welyau ar draws y rhanbarth erbyn 2030
- Yng nghyd-destun model gwasanaethau newydd a modern, **nid ydym yn disgwyl i'r sector cartrefi gofal dyfu'n sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf**, ond rydym am sicrhau ein bod ni'n gallu diwallu anghenion mwy cymhleth ar gyfer gofal nyrsio a dementia mewn amgylcheddau gwahanol yn cynnwys cyfleusterau ansawdd uchel.

6 Arolwg o'r Farchnad: Beth Ddywedodd Darparwyr Cartrefi Gofal Wrthym

I lywio'r Datganiad Sefyllfa'r Farchnad hwn, mae'r IPC wedi cynnal arolwg dros y we gyda darparwyr cartrefi gofal ar draws y rhanbarth. Anfonwyd e-bost at 63 o ddarparwyr hysbys. Cafwyd 26 ymateb, sy'n gyfradd ymateb o 40%, cyfradd dda iawn ar gyfer arolygon o'r fath. Mae'r adroddiad llawn i'w weld yn Atodiad 3. Nid yw'r ymatebion o reidrwydd yn cynrychioli'r holl amrywiaeth barn ar draws y farchnad, ond tynnwyd sylw at y themâu canlynol:

- Mae darparu ffioedd rhesymol yn parhau i fod yn broblem allweddol i ddarparwr, yn enwedig ar adeg pan mae eu costau'n cynyddu'n sylweddol.
- Mae recriwtio a chadw staff, yn enwedig staff nyrsio, yn her allweddol.

- Mae unigolion yn cael eu hatgyfeirio i gartrefi gofal (yn enwedig cartrefi preswyl o bosibl) gyda lefelau cynyddol o gymhlethdod a dibyniaeth. Mae hyn yn rhoi'r her i ddarparwyr o ddiwallu'r anghenion hyn o fewn ffioedd cyfredol.
- Roedd ymatebwyr yn dweud bod y berthynas rhwng darparwyr a chomisiynwyr yn un gadarnhaol ar y cyfan.
- Nododd ymatebwyr y potensial o gael gwell ymgysylltu strategol rhwng comisiynwyr a darparwyr.
- Nododd cyfran sylweddol o ddarparwyr awydd i newid a datblygu er mwyn bodloni gofynion strategol lleol.
- Mae yna gyfle i gomisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio'n well.
- Dylid cynnal a gwella mecanweithiau cyfathrebu a phartneriaeth cyfredol.

Yn ogystal â'r arolwg, trefnodd comisiynwyr weithdy hanner diwrnod ar 9 Mai, i gyflwyno'r Datganiad Sefyllfa'r Farchnad, cyflwyno crynodeb o'r Dadansoddiad o'r Farchnad a thrafod ymhellach y themâu allweddol o'n harolwg. Er mai cynrychiolwyr o chwe darparwr yn unig ddaeth i'r gweithdy, teimlwyd bod modd i ni gadarnhau'r themâu uchod a nodwyd hefyd:

- Bod y darparwyr hynny'n bresennol wedi ymrwymo i wella ymddiriedaeth a phartneriaeth gyda chomisiynwyr.
- Barnwyd mai Fforwm Darparwyr Rhanbarthol oedd y ffordd orau o hyrwyddo hyn.
- Dylai'r cylch gorchwyl ar gyfer y fforwm rhanbarthol hwn gael ei gyd-gynhyrchu gyda chynrychiolwyr darparwyr.
- Dylai'r fforwm darparwyr ddatblygu Cynllun Gweithredu blynyddol.
- Byddai ymddiriedaeth yn gwella pe bai'r fforwm yn cael ei gadeirio gan uwch gynrychiolwyr comisiynwyr o'r ddau awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd.

Prif Bwyntiau:

- Byddwn yn mynd ati i weithredu ein bwriadau strategol yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd darparwyr cartrefi gofal, fel ninnau, yn ceisio datblygu partneriaethau strategol cadarnhaol.
- Bydd y bartneriaeth strategol hon yn cael ei chynnal drwy Fforwm Cartrefi Gofal Rhanbarthol sydd wedi'i ailwampio a'i ddatblygu ac sy'n cynnwys uwch gomisiynwyr ymhlith yr aelodau

7 Arolwg Preswylwyr: Beth Ddywedodd Preswylwyr Cartrefi Gofal Wrthym

I lywio'r Datganiad Sefyllfa'r Farchnad hwn, mae'r IPC wedi cynnal cyfweiliadau gyda phreswylwyr mewn cartrefi gofal ar draws y Rhanbarth i weld pa mor fodlon ydynt gyda'u gofal a gweld a oes gwersi i'w hystyried ar gyfer y dyfodol. Roedd y pynciau a drafodwyd yn deillio o adroddiad 2014 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Lle i'w Alw'n Gartref'. Roedd pawb y siaradwyd â nhw yn gadarnhaol, ac yn canmol y staff gofal a oedd yn gweithio gyda nhw:

“Pan fyddwch chi’n dod i le fel hyn, byddwch chi wastad yn ei gymharu â gartref. Fydd e byth cystal”

Dim ond un o’r bobl y siaradwyd â nhw a ddywedodd ei fod yn teimlo’n ‘gartrefol’, ond roedd y rhan fwyaf yn gadarnhaol am eu ffordd o fyw. Mynegwyd rhai pryderon am brinder gweithgareddau i lenwi’r diwrnodau ond roedd cyfranogwyr yn cydnabod hefyd fod eu hopsiynau ar gyfer gweithgareddau yn fwy cyfyngedig. Roedd pawb yn sôn yn gadarnhaol am eu hamgylchedd, eu hystafelloedd a’u gofal.

Prif Bwyntiau:

- Ar y cyfan mae preswylwyr cartrefi gofal yn gwerthfawrogi ansawdd y gofal a’r amgylchedd a ddarperir mewn cartrefi gofal
- Byddwn yn disgwyl i ddarparwyr weithio gyda ni i “godi’r safon” o ran yr ansawdd bywyd y gall preswylwyr cartrefi gofal yn y dyfodol ei ddisgwyl yn unol â gofynion adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn, “Lle i’w Alw’n Gartref?”

8 Ein Bwriadau Comisiynu yn y Dyfodol

Yng nghyd-destun y Datganiad Cyd-gomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn i ni ei gyhoeddi eisoes, ac ar ôl ystyried yn ofalus y dadansoddi ychwanegol a wnaed i lywio’r Datganiad Sefyllfa’r Farchnad hwn, mae gennym y bwriadau comisiynu canlynol mewn perthynas â Gwasanaethau Cartrefi Gofal ar draws Rhanbarth Cwm Taf:

8.1 Dull Strategol Cyffredinol

Mae Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cwm Taf yn pwysleisio atal, ymyrraeth gynnar a hyrwyddo annibyniaeth. Rydym ni eisiau lleihau’r galw am ofal a reolir hirdymor yn cynnwys lleoliadau mewn cartrefi gofal.

Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiwallu anghenion pobl mewn cyfleusterau Tai Gofal Ychwanegol a disgwyliwn y bydd hyn yn lleihau’n sylweddol y galw am leoliadau mewn cartrefi gofal preswyl.

Rydym yn cydnabod y gallai unigolion ddewis symud i gartref gofal preswyl o hyd.

Ein nod yw cefnogi pobl hŷn a dementia mewn Tai Gofal Ychwanegol, ond nodwn y gallent hwythau a’u teuluoedd ddewis amgylchedd cartref gofal.

Os yw’n briodol, byddwn yn diwallu anghenion gofal nyrsio pobl hŷn yn y gymuned (yn cynnwys mewn cyfleusterau gofal ychwanegol). Fodd bynnag, mae disgwyl y bydd cryn angen o hyd am lefydd mewn cartrefi nyrsio yn cynnwys (ac yn enwedig) ar gyfer pobl â dementia a phroblemau iechyd meddwl eraill.

Yn gyffredinol, byddwn yn parhau i ystyried cartrefi gofal yn rhan bwysig o’r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i bobl a chymunedau.

8.2 Negeseuon Allweddol ar gyfer Darparwyr Cartrefi Gofal

8.2.1 Capasiti

- Rydym yn disgwyl comisiynu llai o lawer o leoliadau mewn cartrefi gofal preswyl dros y 15 mlynedd nesaf.
- Rydym yn rhagweld y bydd datblygiadau mewn gwasanaethau gofal iechyd yn y gymuned yn golygu bod llai o bobl angen gofal mewn cartref nyrsio.
- Yn y lle cyntaf, a nes bod modelau Gofal Ychwanegol wedi'u datblygu'n llawn, rydym eisiau sicrhau drwy ein trefniadau comisiynu ddarpariaeth fwy cyson o ofal dementia a gofal nyrsio o safon mewn cartrefi gofal.
- Hoffem weithio gyda darparwyr i ddatblygu modelau hyblyg o ofal byrdymor mewn cartrefi gofal i gefnogi gyda, er enghraifft:
 - Rhyddhau o'r ysbyty
 - Asesu
 - Ymyriadau ail-alluogi priodol
- Rydym yn wynebu prinder lleoliadau mewn cartrefi gofal lleol a hygyrch yn y categorïau canlynol ar hyn o bryd:
 - Oedolion iau ag anableddau cymhleth yn cynnwys anafiadau i'r ymennydd
 - Oedolion ag anabledd dysgu (yn enwedig pobl hŷn)
 - Pobl o dan 65 oed â dementia.
- Rydym eisiau cryfhau ein darpariaeth o ofal seibiant dibynadwy a hygyrch mewn cartrefi gofal. Byddwn yn ystyried rhoi contractau bloc ar gyfer y rhain. (Fodd bynnag, bydd hyn bob amser yn seiliedig ar ansawdd y ddarpariaeth).
- Yn gyffredinol, rydym am sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r capasiti sydd ar gael.

8.2.2 Datblygu a chynorthwyo busnesau

- Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfredol sydd am addasu eu busnes i ddiwallu ein hanghenion comisiynu yn y dyfodol.
- Bydd gwasanaethau cymorth busnes ein Cynghorau ar gael i ddarparwyr gwasanaethau sydd am gynllunio ar gyfer newidiadau yn eu busnes i helpu'r busnesau hynny i nodi'r cyngor, help a chymorth datblygu sydd ei angen arnynt a sut i gael gafael arno.
- Byddwn yn gweithio'n agos gydag unrhyw ddarparwr sydd am gau cartref gofal a chynllunio i sicrhau parhad yng ngofal pob preswilydd.
- Rydym yn disgwyl ymgysylltu cyn gynted â phosibl â darparwyr sy'n ceisio datblygu capasiti newydd i sicrhau ei fod yn diwallu angen lleol.

8.2.3 Ansawdd

- Byddwn yn datblygu ein dull gweithredu mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r amgylchedd mewn cartrefi gofal i ganolbwyntio'n fwy clir o lawer ar ganlyniadau ar gyfer unigolion ac ansawdd bywyd.
- Ar sail hyn, byddwn yn disgwyl i ddarparwyr cartrefi gofal ychwanegol weithio gyda ni i esblygu a dangos bod pobl yn ein hardal yn gallu byw bywydau bodlon mewn cartrefi gofal o safon uchel.
- Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cartrefi gofal i gyd-gynhyrchu fframweithiau a phecynnau cymorth newydd ar ansawdd i ategu'r dull gweithredu hwn.
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant a chymorth ar gyfer defnyddio'r rhain.
- Pan fydd y fframweithiau ansawdd newydd yn barod, dim ond cartrefi gofal sydd wedi ymrwmo i ansawdd bywyd ar y lefel hon ar gyfer eu preswylwyr, ac sy'n gallu sicrhau hynny, fydd yn cael contractau gennym.

8.2.4 Datblygu'r Gweithlu

- Ein Cynllun ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol fydd ein dull o sicrhau gweithlu gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf o hyd.
- Bydd gofyniad mewn contractau i ddarparwyr cartrefi gofal gydymffurfio â'r holl hyfforddiant a nodir.
- Byddwn yn datblygu hyfforddiant ar arwain a rheoli ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal.
- Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i ddatblygu dulliau cydweithredol newydd o recriwtio yn enwedig mewn perthynas â nyrsys cofrestredig.
- Byddwn yn cydweithio â darparwyr i godi proffil gyrfaoedd mewn cartrefi gofal ac i ddatblygu'r farchnad lafur.

8.2.5 Ffioedd

- Yng nghyd-destun ein bwriadau comisiynu a ddisgrifir uchod, byddwn yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau tuag at sicrhau ystod gynaliadwy ac ansawdd uchel o wasanaethau.
- Byddwn yn parhau i weithio a thrafod ffioedd cartrefi gofal gyda darparwyr gwasanaethau gan roi sylw dyledus i fodel cytunedig o gostau gofal.

8.2.6 Partneriaeth

- Byddwn yn datblygu fforwm rhanbarthol ar gyfer darparwyr cartrefi gofal.
- Byddwn yn cyd-gynhyrchu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y fforwm hwn gyda chynrychiolwyr darparwyr gwasanaethau.
- Byddwn yn ystyried y fforwm hwn fel cyfrwng ar gyfer sicrhau dull cydweithredol mewn perthynas â'r gofynion strategol a nodir uchod.
- Ar y cyd â darparwyr gwasanaethau byddwn yn cyhoeddi cynllun gwaith blynyddol ar gyfer y fforwm darparwyr.
- Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i fagu ymddiriedaeth, hyder a thryloywder.

- Byddwn yn disgwyl i ddarparwyr ymrwymo i fynychu cyfarfodydd y fforwm darparwyr.

9 Crynodeb a Chasgliad

Rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i baratoi'r Datganiad Sefyllfa'r Farchnad hwn ar gyfer Gwasanaethau Cartrefi Gofal. Gwyddom fod angen dull newydd o ddarparu gofal a chymorth i'r nifer cynyddol o bobl hŷn yn ein cymunedau. Bydd gan hyn oblygiadau difrifol iawn i rôl cartrefi gofal yn y dyfodol. Er bod newid yn angenrheidiol, drwy bwysleisio annibyniaeth mewn cymunedau a modelau amgen o lety â chymorth, byddwn yn parhau i weld cartrefi gofal fel rhan bwysig o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i bobl a cymunedau.

Rydym eisiau gwneud newid sylweddol yn ein perthynas â darparwyr, gan hyrwyddo amgylchedd o bartneriaeth gadarnhaol. Credwn mai'r uchelgais cyffredin a fydd yn gwlm yn y bartneriaeth hon fydd gwella ansawdd bywyd yr aelodau hynny o'n cymunedau a fydd yn parhau i ddewis byw mewn cartrefi gofal.